Dewisiadau hyfforddi ar gyfer trwyddedu

Mae'r ddogfen yma ar gael yn Saesneg / This document is available in English

Rhentu Doeth Cymru
Rent Smart Wales

03000 133344
rhentudoeth.llyw.cymru

Am hyfforddiant

Gellir cwblhau cyrsiau hyfforddi drwy Rhentu Doeth Cymru yn uniongyrchol. Dangosir rhestr o opsiynau cyrsiau isod. Fel arall, gellir cwblhau cyrsiau cymeradwy drwy gan ddarparwyr hyfforddiant awdurdodedig.

Er mwyn cyflwyno cais dilys am drwydded, rhaid i'r holl hyfforddiant (ac eithrio hyfforddiant Datblygiad Proffesiynol Parhaus) (hyfforddiant DPP) fod wedi'i gwblhau o fewn blwyddyn cyn dyddiad cyflwyno'r cais. Gellir cwblhau hyfforddiant DPP dros gyfnod o 5 mlynedd y drwydded flaenorol.

Rhaid i dystiolaeth hyfforddi gyd-fynd â chais am drwydded a ffi'r drwydded, er mwyn i Rhentu Doeth Cymru roi trwydded.

Mae gofynion hyfforddi landlordiaid ac asiantau yn wahanol i adlewyrchu'r rhwymedigaethau ychwanegol sydd gan asiant.

Opsiynau hyfforddi ar gyfer trwydded gyntaf

Os yw ymgeisydd yn gwneud cais am ei drwydded gyntaf, mae'n rhaid iddo basio cwrs Hyfforddiant Trwydded Landlord/Asiant ar dudalen 3.

Opsiynau hyfforddi ar gyfer adnewyddu eich trwydded

Mae tri opsiwn hyfforddiant ar gael wrth adnewyddu. Mae'r rhain yn cynnwys:

1. **Ail-adrodd y Hyfforddiant Landlord/Asiant (tudalen 3) -** o fewn 1 flwyddyn cyn cyflwyno cais adnewyddu; NEU

2. ***Hyfforddiant Ail-drwyddedu (tudalen 3) -** o fewn 1 flwyddyn cyn cyflwyno cais adnewyddu; NEU

3. ***Gwblhau Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) (tudalen 5) -** I gwblhau cais am drwydded yn seiliedig ar dystiolaeth DPP, rhaid i'r ymgeisydd gyflawni nifer ofynnol o bwyntiau. Isafswm nifer y pwyntiau ar gyfer cais landlord yw 60, a rhaid i asiant gyflawni o leiaf 80. Mae gan bob cwrs DPP nifer dynodedig o bwyntiau a briodolir iddo. Mae pob cwrs wedi ei bwysoli'n wahanol, yn dibynnu a ydynt yn bwnc 'Craidd' (gorfodol) neu'n bwnc 'Atodol' (o ddewis yr ymgeisydd). Rhaid cwblhau hyffordiant DPP dros gyfnod o 5 mlynedd eich trwydded bresennol

Mae'r opsiynau hyn ond yn addas ar gyfer y rhai sydd yn barod wedi cwblhau hyfforddiant cymeradwy trwydded 'tro cyntaf'

Gweler ffioedd hyfforddiant.

Cyrsiau 'Cyflawn'

Mae'r cyrsiau hyn yn cyfateb i hyfforddiant dwys un dydd.

Teitl y Cwrs	Math o gyflwyniad	Addas ar gyfer trwydded gychwynnol/ adnewyddu trwydded*?	Addas ar gyfer
Hyfforddiant Trwydded Landlord	Ystafell ddosbarth	Trwydded gychwynnol ac adnewyddu	• Y rhai sy'n gwneud cais am drwydded landlord • Y rhai sy'n bersonau cysylltiedig ar drwydded landlord ar gyfer landlord sy'n gorff corfforaethol, ymddiriedolaeth neu elusen • Pobl y byddai'n well ganddynt wneud hyfforddiant mewn ystafell dosbarth.
Hyfforddiant Trwydded Landlord	Ystafell ddosbarth rhithwir	Trwydded gychwynnol ac adnewyddu	• Y rhai sy'n gwneud cais am drwydded landlord • Y rhai sy'n bersonau cysylltiedig ar drwydded landlord ar gyfer landlord sy'n gorff corfforaethol, ymddiriedolaeth neu elusen • Pobl y byddai'n well ganddynt wneud hyfforddiant mewn ystafell dosbarth ar-lein.
Hyfforddiant Trwydded Landlord	Ar-lein	Trwydded gychwynnol ac adnewyddu	• Y rhai sy'n gwneud cais am drwydded landlord • Y rhai sy'n bersonau cysylltiedig ar drwydded landlord ar gyfer landlord sy'n gorff corfforaethol, ymddiriedolaeth neu elusen • Pobl y byddai'n well ganddynt wneud hyfforddiant ar-lein.
Hyfforddiant Trwydded Asiant	Ystafell ddosbarth	Trwydded gychwynnol ac adnewyddu	• Y rhai sy'n gwneud cais am drwydded asiant • Y rhai sy'n gweithio i elusen, ymddiriedolaeth neu corff corfforaethol sy'n rheoli eiddo ar ran landlordiaid • Y rhai y byddai'n well ganddynt gwblhau hyfforddiant mewn ystafell dosbarth.
Hyfforddiant Trwydded Asiant	Ar-lein	Trwydded gychwynnol ac adnewyddu	• Y rhai sy'n gwneud cais am drwydded asiant • Y rhai sy'n gweithio i elusen, ymddiriedolaeth neu corff corfforaethol sy'n rheoli eiddo ar ran landlordiaid • Y rhai y byddai'n well ganddynt gwblhau hyfforddiant ar-lein.

Cwrs Aildrwyddedu	Ar-lein	Adnewyddu yn unig	• Y rhai sy'n gwneud cais am adnewyddu trwydded • Y rhai sy'n bersonau cysylltiedig ar drwydded ar gyfer landlord sy'n gorff corfforaethol, ymddiriedolaeth neu elusen ac sy'n gwneud cais am adnewyddu trwydded. • Y rhai a fyddai'n dal i hoffi gwneud hyfforddiant 'cyflawn' ond sy'n canolbwyntio ar bynciau mwy perthnasol sy'n ymwneud â rheoli tenantiaeth o ddydd i ddydd yn hytrach na'r holl bynciau a drafodir yn yr hyfforddiant trwyddedu cychwynnol • Y rhai hynny y byddai'n well ganddynt gwblhau hyfforddiant ar-lein

Cyrsiau Atodol

Yn dibynnu ar y math o drwydded, efallai y bydd gofyn i chi ychwanegu cyrsiau 'atodol' at gyrsiau 'cyflawn' (a restrir ar dudalen 3) i gwrdd â'r gofynion hyfforddi.

Teitl y cwrs	Math o gyflwyniad	Addas ar gyfer trwydded gychwynnol/ adnewyddu trwydded*?	Addas ar gyfer
Cwrs Ychwanegiad i Asiantau o'r Hyfforddiant Trwyddedu Landlord	Ar-lein	Trwydded gychwynnol ac adnewyddu os cânt eu cyfuno â chwrs 'cyflawn' perthnasol uchod.	• Y rhai sydd wedi cwblhau hyfforddiant cymeradwy y mae angen y mater atodol hwn arnynt (gellir dod o hyd i wybodaeth ar ein tudalen hyfforddiant cymeradwy gan ddarparwyr awdurdodedig) • Y rhai sydd wedi cwblhau Hyfforddiant Landlordiaid Rhentu Doeth Cymru ar-lein, mewn ystafell ddosbarth neu mewn ystafell ddosbarth rithwir ac sydd angen hyfforddiant ychwanegol i wneud cais am drwydded asiant.

Cyrsiau Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP)

Mae cyrsiau DPP yn darparu mwy o ddewis o ran amseru, pwnc ac amgylchedd. Mae pob cwrs DPP yn cael ei bwysoli'n wahanol, yn dibynnu a ydyn nhw'n bwnc 'Craidd' (gorfodol) neu'n bwnc 'Atodol' (o ddewis yr ymgeisydd).

Cyrsiau DPP Craidd (rhaid cwblhau un o'r rhain i gyflwyno cais am drwydded ddilys yn seiliedig ar hyfforddiant DPP)			
Teitl y cwrs	**Math o gyflwyniad**	**Addas ar gyfer trwydded gychwynnol/adnewyddu trwydded*?**	**Nifer y pwyntiau os ar gyfer adnewyddu**
Cartrefi diogel ac Iach	Ar-lein	Adnewyddu yn unig	30
Cynnal Tenantiaethau	Ar-lein	Adnewyddu yn unig	30

**Dim ond os ydynt yn ychwanegu at y nifer ofynnol o bwyntiau sydd eu hangen i adnewyddu y mae cyrsiau yn addas i adnewyddu.*

Cyrsiau DPP Atodol (dewis a chymysgu o'r isod i gyfuno â chwrs DPP Craidd i gyflawni'r nifer gofynnol o bwyntiau)			
Teitl y cwrs	**Math o gyflwyniad**	**Addas ar gyfer trwydded gychwynnol/adnewyddu trwydded*?**	**Nifer y pwyntiau os ar gyfer adnewyddu**
Gwaharddiad Ffioedd Tenantiaid	Ar-lein	Adnewyddu yn unig	10
Cydraddoldeb ac Amrywiaeth	Ar-lein	Adnewyddu yn unig	10
Diogelwch Tân	Ar-lein	Adnewyddu yn unig	10
Credyd Cynhwysol	Ar-lein	Adnewyddu yn unig	10
Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR)	Ar-lein	Adnewyddu yn unig	10
Rheoli Llety Gosod i Fyfyrwyr	Ar-lein	Adnewyddu yn unig	20
Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl	Ar-lein	Adnewyddu yn unig	10
Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb	Ar-lein	Adnewyddu yn unig	10
Rheoli Llifogydd	Ar-lein	Adnewyddu yn unig	10
Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru)	Ar-lein	Adnewyddu yn unig	10

**Bydd cyrsiau hyfforddi ychwanegol yn cael eu cynnwys dros amser. Yn gywir ym mis Gorffennaf 2026.*